Gwasanaethau Cymorth Iechyd Meddwl

Mae Gwasanaethau Cymorth Iechyd Meddwl yn rhan o Wasanaethau Cymdeithasol Cyngor Sir y Fflint. Rydym yn darparu gwasanaeth i bobl â phroblemau iechyd meddwl sy'n byw yn Sir y Fflint.
Mae ein timau'n gweithio mewn partneriaeth â phobl er mwyn iddynt allu byw yn fwy annibynnol yn y gymuned. Gallwn gynorthwyo pobl i ymdopi â thasgau yn eu cartrefi, ymuno mewn gweithgareddau cymdeithasol a gweithgareddau hamdden a chymryd rhan mewn gwirfoddoli neu addysg. Mae'r math o gymorth a gynigir yn dibynnu ar anghenion a dymuniadau'r bobl eu hunain, a thrwy gytuno â'r tîm gwasanaethau cymorth.

Mae ein gwasanaeth yn gweithio o fewn yr "ymagwedd gwella", sy'n golygu bod gan bobl yr hawl i greu bywydau ystyrlon iddyn nhw eu hunain a chael rolau gwerthfawr, beth bynnag fo'u problemau iechyd meddwl.

Gwasanaethau a Gynigir.
Mae Gwasanaethau Cymorth Iechyd Meddwl yn cynnwys chwe thîm sydd â swyddogaethau gwahanol. Gallai pobl gael eu cynorthwyo gan fwy nag un tîm i fodloni eu hanghenion a'u helpu i gyflawni eu nodau.

Mae'r **Tîm Cymorth Dwys** yn gweithio gyda phobl a allai fod â llawer o anawsterau neu y mae angen mwy o gymorth arnynt i gael yr hyder i fyw yn ddiogel yn eu cartrefi. Mae'r tîm yn darparu cymorth un i un a allai fod yn mewn perygl o golli eu cartrefi, sydd erioed wedi byw ar eu pen eu hunain o'r blaen neu sy'n dychwelyd i'r gymuned ar ôl cyfnod hir mewn ysbyty neu leoliad gofal arall.
I gael gwybodaeth, ffoniwch 01352 730822.

Mae'r **Tîm Byw yn y Gymuned a Chymorth Canolig** yn darparu cymorth un i un i helpu i gymell ac annog pobl mewn ystod o weithgareddau o'u dewis. Mae hyn er mwyn helpu pobl i fod yn fwy annibynnol a hyderus yn byw gartref ac yn y gymuned.
I gael gwybodaeth, ffoniwch 01244 845400.

Cynlluniau gwaith sy'n cynorthwyo pobl mewn amgylchedd diogel i fagu hyder a datblygu sgiliau a chymwysterau yn gysylltiedig â gwaith yw **Growing Places** a **Double Click Design**. Caiff pobl eu hannog i gymryd rhan yn y gymuned leol, ac mae gwasanaethau gwaith weithiau yn gam at waith cyflogedig neu waith gwirfoddol.

Gwasanaeth garddio cymunedol yw **Growing Places**, ac mae ganddo randir a thwnelau polythen hefyd a ddefnyddir ar gyfer tyfu a phlannu planhigion. Mae gwirfoddolwyr yn Growing Places yn cynnal cwmni bwyd cydweithredol lleol hefyd.

Mae **Double Click Design** yn wasanaeth dylunio cyfrifiaduron ac argraffu sy'n cynhyrchu taflenni, pamffledi a chardiau ffotograffig. Mae bellach yn Fenter Gymdeithasol annibynnol ac nid yn rhan o'r Gwasanaethau Cymdeithasol mwyach, ond yn dal i gymryd atgyfeiriadau drwy'r Gwasanaethau Cefnogi Iechyd Meddwl.

Mae'r naill wasanaeth a'r llall yn rhoi cyfleoedd i bobl ddysgu a chymryd rhan ym mhob agwedd ar gynnal y busnesau (gan gynnwys gweinyddu, cyllid a marchnata).
I gael gwybodaeth, ffoniwch Growing Places ar 01244 831056
neu Double Click Design ar 01244 846411.

Mae **Next Steps** yn darparu cymorth ac arweiniad i bobl ymgymryd ag addysg, hyfforddiant, gwaith gwirfoddol a chyflogaeth. Gallant gynorthwyo pobl i aros mewn gwaith hefyd os ydynt eisoes wedi'u cyflogi. Gellir darparu cymorth tra bydd y bobl yn dal i gael budd-daliadau a chymorth gan wasanaethau eraill. Mae tîm Next Steps yn gweithio'n agos gyda sefydliadau eraill fel y Ganolfan Byd Gwaith, Gyrfa Cymru, canolfan y gwirfoddolwyr a phrifysgolion a cholegau lleol.
I gael gwybodaeth, ffoniwch 01352 705990 neu 01244 637115.

Mae **Social Links** yn cynorthwyo unigolion a grwpiau bach i gymryd rhan mewn gweithgareddau cymdeithasol a hamdden. Mae'r tîm yn gweithio gyda phobl sydd eisiau ymuno â grwpiau cymunedol a chyfleusterau y mae ganddynt ddiddordeb ynddynt. Maent yn cynnal nifer o sesiynau galw i mewn ledled Sir y Fflint yn ystod yr wythnos ac ar benwythnosau hefyd.
I gael gwybodaeth, ffoniwch 01244 810185..

Sut i gael mynediad at y Gwasanaethau Cymorth Iechyd Meddwl.
Yn gyffredinol, mae'r Gwasanaethau Cymorth Iechyd Meddwl yn darparu cymorth cymunedol i oedolion yn Sir y Fflint sydd â phroblemau iechyd meddwl difrifol a pharhaol. Golyga hynny fod raid i bobl fod yn agored i Gydgysylltydd Gofal neu seiciatrydd sy'n gweithio yn un o Dimau Iechyd Meddwl Cymunedol Sir y Fflint neu'r Tîm Adsefydlu Cymunedol a chael eu hatgyfeirio ganddynt.

Yn ogystal â'r bobl uchod, mae Cysylltiadau Cymdeithasol a Chamau Nesaf yn darparu gwasanaeth i bobl sydd wedi cael eu hatgyfeirio gan y Tîm Camddefnyddio Sylweddau. Mae Camau Nesaf yn darparu cymorth i'r bobl hynny sy'n cael eu hatgyfeirio gan y tîm Iechyd Meddwl Gofal Sylfaenol hefyd. Mae gan Gysylltiadau Cymdeithasol nifer o grwpiau (gan gynnwys sesiynau galw heibio) ar gyfer pobl sy'n cael eu heffeithio gan broblemau iechyd meddwl ond sydd heb Gydgysylltydd Gofal, Gweithiwr Achos neu Weithiwr Allweddol.

I gael gwybod a oes modd eich cyfeirio at un o'r gwasanaethau hyn, siaradwch â'ch Cydlynydd Gofal, eich Gweithiwr Achos neu'ch Gweithiwr Allweddol neu ffoniwch un o'r rhifau ffôn cyswllt uchod.

Gwybodaeth arall am Wasanaethau Cymorth
Mae Gwasanaethau Cymorth Iechyd Meddwl yn gweithredu'n hyblyg rhwng 8.00am a 10.00 pm ar ddyddiau'r wythnos a rhwng 9.00am a 10.00pm ar benwythnosau, a chynigir llai o wasanaethau ar wyliau banc.

Nid ydym yn codi tâl am wasanaethau iechyd meddwl.

Bydd gwybodaeth am bobl sy'n defnyddio'r gwasanaethau yn cael ei chadw'n gyfrinachol rhwng yr unigolyn, y Cydlynydd Gofal, y Gwasanaethau Cymorth a'r gofalwr penodol (os bydd angen). Bydd y cyfrinachedd hwn yn cael ei dorri dim ond os oes pryderon am unrhyw risg o niwed i'r unigolyn sy'n derbyn y gwasanaeth, neu i rywun arall.

Mae ein gwefan yn: www.siryfflint.gov.uk/iechydmeddwyl

Mawrth 2017 cyf: H1